VAUGHAN, RICE (bu farw 1670), cyfreithiwr ac awdur

Enw: Rice Vaughan
Dyddiad marw: 1670
Rhiant: Mary Vaughan (née Wynn)
Rhiant: Henry Vaughan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

ail fab (ac, o 1654, aer) Henry Vaughan, Gelligoch, Machynlleth, a'i wraig Mary, merch Maurice Wynn, Glyn, gerllaw Harlech. Aeth i Ysgol Amwythig ym mis Gorffennaf 1615, derbyniwyd ef i Gray's Inn, 13 Awst 1638, a daeth yn fargyfreithiwr ar 20 Mehefin 1648. Yn y cyfamser bu'n cynorthwyo plaid y Senedd, e.e. ym mis Mehefin 1644 fe'i hetholwyd yn aelod o bwyllgor siroedd Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin. Ceisiodd gael ei ddewis yn aelod seneddol dros sir Feirionnydd yn 1654, eithr John Vaughan, Cefnbodig, a ddewiswyd, ac anfonodd Vaughan betisiwn yn erbyn yr ethol; ceir cnewyllyn yr hanes yn W. R. Williams, *Hist. of the Great Sessions in Wales*, wedi ei seilio ar *Calendar of State Papers, Domestic Series, 1654*. Ychydig cyn hynny, sef ar 18 Awst 1653, dewisasid Vaughan i swydd dirprwy-glerc llysoedd Sesiwn Fawr Cymru yn siroedd Dinbych a Threfaldwyn. John Edisbury a ddaliai'r swydd cyn dewis Vaughan iddi; gweler y manylion yn *Calendar of State Papers, Domestic Series, 1653-4*, ac yn W. R. Williams, op. cit. Bu Vaughan yn gwasnaethu'r pwyllgor a oedd yn delio â 'sequestration.' Yn ddiweddarach, sef o tua Mai 1665 hyd 1667 (?), bu yng ngharchar Twr Llundain.

Rice Vaughan oedd awdur y tri gwaith: (*a*.) *A Plea for the Common Laws of England* (Llundain, 1651), pamffledyn, cyflwynedig i'r Senedd, yn ateb llyfr gan Hugh Peters a elwid *A Good Work for a Good Magistrate*; (*b*.) *Practica Walliae: or the Proceedings in the Great Sessions of Wales: containing the Method and Practice of an Attorney there, from an Original to its Execution. Whereunto is added, The Old Statute of Wales at large; And an Abridgement of all the Statutes uniting Wales to England: with Tables of the Fees, and the Matters therein contained* (Llundain, 1672); (*c*.) *A Discourse of Coin and Coinage* (Llundain, 1675).

Profwyd ei ewyllys yn 1670 (P.C.C.)

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd eisoes ychwaneger

Oxford Dictionary of National Biography

Foster, *Register of Admissions to Gray's Inn, 1521–1889 ...* (1889)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7323060

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu